

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Papur ymchwil

**Cyllideb Derfynol 2013-14**

Tachwedd 20123

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Y Gwasanaeth  
Ymchwil**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)  
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/3063  
Rhif dogfen:12/053

# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## **Papur ymchwil**

# **Cyllideb Derfynol 2013-14**

Tachwedd 2012

Dr Eleanor Roy

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14. Mae'n rhoi golwg gyffredinol ar gynlluniau gwario 2013-14 a sut y mae'r rhain yn cymharu â 2012-13, ac mae'n edrych ar y newidiadau cyffredinol dros gyfnod y gyllideb (hyd at 2014-15), a sut y mae'r Gyllideb Derfynol yn cymharu â Chyllideb Ddrafft 2013-14.

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Y Gwasanaeth  
Ymchwil**



## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, sy'n nodi'r cynlluniau gwario ar gyfer 2013-14 a'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2014-15. Cyfeirir at y newidiadau a wnaed ers Cyllideb Ddrafft 2013-14 ac, felly, dylid ei ddarllen ar y cyd â phapur y Gwasanaeth Ymchwil, [Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2013-14](#).

- Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, **cafwyd dyraniadau ychwanegol o £41 miliwn yn 2013-14 a £61 miliwn yn 2014-15 i adrannau Llywodraeth Cymru**. Daeth y dyraniadau ychwanegol hyn o gronfeydd wrth gefn.
- Mae'r dyraniadau ychwanegol yn 2013-14 yn cynnwys: **£21 miliwn** i'r portffolio Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a **£20 miliwn** i'r portffolio Addysg a Sgiliau.
- Bwriedir lleihau cyfanswm y gwariant a reolir (TME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£107.9 miliwn (0.7%) yn 2013-14** o'i gymharu â 2012-13. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £477.8 miliwn (3.1%).
- Bwriedir cynyddu'r terfyn gwariant adrannol (DEL) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£20.3 miliwn (0.1%) yn 2013-14** o'i gymharu â 2012-13. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £342.8 miliwn (2.3%).
- Bwriedir lleihau'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£128.2 miliwn neu 31.6% yn 2013-14** o'i gymharu â 2012-13. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 33.3%.

Nodwch fod yr holl gyfrifiadau mewn termau real a nodir yn y papur hwn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio [datchwyddwyr cynnyrch mewnwladol crynswth \(CMC\)](#) Trysorlys Ei Mawrhydi (y ffigurau diweddaraf, fel ym mis Medi 2012). Yr amcangyfrifon a ddefnyddir yw: 2.7% ar gyfer 2012-13 a 2.5% ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Wrth edrych ar bŵer gwario cyffredinol Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ystyried a yw rhagolygon y datchwyddwr CMC yn cynrychioli'n ddigonol y pwysau o ran costau ar y sector cyhoeddus, y mae cyflogau a chostau contractwyr o bosibl yn dylanwadu'n fwy arno.



# Cynnwys

1.	Cyllideb Derfynol 2013-14 .....	1
2.	Newidiadau ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2013-14.....	4
3.	Trosolwg o Floc Cymru .....	7
3.1.	Cyfanswm y gwariant a reolir (TME) -.....	7
3.2.	Cyfanswm terfynau gwariant adrannol (DEL) .....	11
3.3.	DEL Refeniw .....	17
3.4.	DEL cyfalaf .....	21
3.5.	Y gwariant a reolir yn flynyddol (AME).....	25
4.	Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.....	27
5.	Llywodraeth Leol a Chymunedau .....	30
6.	Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.....	33
7.	Addysg a Sgiliau.....	37
8.	Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy .....	41
9.	Tai, Adfywio a Threftadaeth .....	44
10.	Gwasanethau Canolog a Gweinyddu.....	47





## 1. Cyllideb Derfynol 2013-14

Bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14<sup>1</sup> ar 13 Tachwedd 2012.<sup>2</sup> Cafwyd 27 o bleidleisiau o blaid y cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft, 16 pleidlais yn ei erbyn ac ymataliodd 10 o Aelodau, ac felly pasiwyd y cynnig.

Cyn y ddadl, roedd Llywodraeth Cymru wedi negodi cytundeb gyda Plaid Cymru mewn perthynas â'r gyllideb. Nododd datganiad ar y cyd gan y Prif Weinidog (Carwyn Jones) ac Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood) delerau'r cytundeb hwn:

...mae Llywodraeth Lafur Cymru a Phlaid Cymru wedi dod i gytundeb heddiw er mwyn sicrhau y gellir pennu Cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf – cytundeb sy'n seiliedig ar sicrhau y gellir datblygu cyfleoedd o'r fath ar gyfer ein pobl ifanc ymhellach.<sup>3</sup>

Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys y darpariaethau i'w gwneud ar gyfer:

- **£20 miliwn ychwanegol yn 2013-14 ar gyfer cefnogi prentisiaethau,** wedi'i dargedu at y grŵp oedran 16-24, gyda **£20 miliwn ychwanegol yn 2014-15;**<sup>4</sup>
- Gwneir ymdrechion i sicrhau arian gan yr UE i roi hwb i'r ymrwymiad hwn; a
- **£10 miliwn o arian cyfalaf dros ddwy flynedd i gefnogi'r bwriad i greu parc gwyddoniaeth** o dan arweiniad Prifysgol Bangor mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth.

Caiff y dyraniadau hyn eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Derfynol 2013-14.

O dan y cytundeb hwn, cytunodd Plaid Cymru i adael i'r cynnig gael ei basio drwy ymatal yn y bleidlais, ond nododd llefarydd ar ran Plaid:

...they would not vote for it as doing so would tie them to the rest of the government's commitments.<sup>5</sup>

Dywedodd Arweinydd Plaid Cymru, (Leanne Wood):

Mae Plaid Cymru yn falch o gyhoeddi y creir miloedd o brentisiaethau a swyddi o ganlyniad i'r fargen y daethom iddi gyda'r Llywodraeth heddiw. Mae diweithdra ieuentid wedi cyrraedd lefel argyfyngus yng Nghymru, gan ei fod wedi cynyddu bedair gwaith dros y flwyddyn a aeth heibio. Bu Plaid Cymru yn gyson yn ein penderfyniad fod yn rhaid gweithredu ar frys i fynd i'r afael â hynny. Yr economi a swyddi fu fy mlaenoriaeth o'r cychwyn. Dyma gamau pendant fydd yn helpu i ail-adeiladu ein heconomi a rhoi i'n pobl ifanc yr arfau mae arnynt eu hangen ar gyfer dyfodol llwyddiannus. Mae Plaid Cymru o ddifrif

<sup>1</sup>Llywodraeth Cymru, [Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14](#), Hydref 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>2</sup>Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2012](#) [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>3</sup>Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, [Datganiad ar y cyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, a Leanne Wood, Arweinydd Plaid Cymru](#), 8 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>4</sup>Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu pa gynlluniau y bydd yr arian yn eu cefnogi, mewn ymgynghoriad â Plaid Cymru.

<sup>5</sup>Newyddion y BBC, [Welsh Government Budget: Labour deal with Plaid Cymru](#), 8 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

am sefyll dros bobl Cymru, ac i wneud hynny, mae'n rhaid i ni roi gobaith i genedlaethau'r dyfodol. Bydd y fargen hon yn helpu i gyrraedd y nod hwnnw.<sup>6</sup>

### Ychwanegodd Ieuan Wyn Jones, llefarydd cyllid Plaid Cymru:

Heddiw, rydym ni wedi sicrhau £40 miliwn ar gyfer prentisiaethau. Mae gan hyn y potensial i fod gymaint â £60 miliwn gydag arian yr UE. Nid yn unig y bydd hyn yn help i fynd i'r afael â phroblem diweithdra ieuenctid, ond bydd hefyd yn rhoi i'n pobl ifanc y sgiliau maent eu hangen at y dyfodol. Bydd hyn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad mewn hybu sgiliau ein gweithlu yng Nghymru y flwyddyn nesaf i dros £100 miliwn.

Mae'n newyddion gwych hefyd ein bod wedi sicrhau £10 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth. Bydd hyn yn creu swyddi y mae angen dybryd amdanynt yn y dyfodol agos, ac yn y tymor hwy, bydd yn galluogi ein pobl ifanc i gystadlu ar lwyfan economaidd y byd. Mae'r camau a gymerodd Plaid Cymru heddiw yn golygu ein bod yn cyflawni ein haddewid i ymladd dros swyddi a dyfodol i'n pobl ifanc.<sup>7</sup>

### Wrth ymateb i'r cyhoeddiad ar y cytundeb ar y gyllideb, dywedodd Kirsty Williams, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru:

I have always maintained that the Welsh Liberal Democrats would not back a budget that does not make progress towards closing the funding gap with England - starting with the poorest children who need the extra help the most. For too long, social background has been a deciding factor in a child's achievement and future prospects, whether it be in health, occupation or further higher education.

The budget negotiations with the Welsh Government were positive and constructive but Labour could not agree to the substantial increase in the funding for the poorest children in our society. This budget will mean that the funding gap between English and Welsh children will increase and I am very concerned that Wales will fall further behind.

The Welsh Liberal Democrats worked hard to push for a fund to allow Welsh patients to access treatments that are not available routinely through the NHS. This fund is not about medicines or a specific illness - it is about the right treatment for the right person at the right time whether that is new forms of radiotherapy, chemotherapy, treatment for dementia sufferers or those suffering from mental health issues. We are heartened that the Welsh Government seems to be willing to take our idea forward.<sup>8</sup>

### Dywedodd Paul Davies AC, Gweinidog Cyllid yr Wrthblaid:

This is a cheap deal that hails the return of an old and ineffective tag team.

Plaid has been bought for far less than anyone expected in what is effectively a second-rate trade-off.

The government will decide on exactly how this money is spent, not Plaid. We're in for more of the same lazy Labour - easily spending very little to get votes.

---

<sup>6</sup>Plaid Cymru, [\*Plaid Cymru yn sicrhau miloedd o brentisiaethau a chreu swyddi mewn bargaen ar y gyllideb\*](#), 8 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>7</sup>Ibid

<sup>8</sup>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, [\*Welsh Liberal Democrats will not back a budget that does not make progress towards closing the funding gap with England\*](#), 8 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

This is nowhere near enough for the economy. We're still missing crucial details on enterprise zones, solid decisions on business rates relief, and improvements to inward investment.

Our NHS will still face record-breaking cuts, immense pressure on frontline services, and hospital downgrades. That's unacceptable and unnecessary.<sup>9</sup>

Gosododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt AC, Gynnig Cyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14<sup>10</sup> gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Tachwedd 2012. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol,<sup>11</sup> tablau dyraniadau gwariant<sup>12</sup> a datganiad ysgrifenedig.<sup>13</sup>

---

<sup>9</sup> Ceidwadwyr Cymreig, [\*Cheap budget deal sees return of old tag team\*](#), 8 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2013-14\*](#), 27 Tachwedd 2011 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Nodyn Esboniadol y Gyllideb Flynyddol 2013-14\*](#), 27 Tachwedd 2011 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Tablau dyraniadau gwariant y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14\*](#), 27 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [\*Cyllideb Derfynol 2013-14\*](#), Datganiad Cabinet (Ysgrifenedig), 27 Tachwedd 2012 [fel ar 28 Tachwedd 2012]

## 2. Newidiadau ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2013-14

Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, cafwyd **dyraniadau ychwanegol o £41 miliwn yn 2013-14 a £61 miliwn yn 2014-15 i adrannau Llywodraeth Cymru**. Daeth y dyraniadau ychwanegol hyn o gronfeydd wrth gefn. Mae [tabl 1](#) yn dangos y trosglwyddiadau mewn perthynas â'r cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn.

Cafodd y £41 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 eu gwneud i ddechrau o'r cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai **ei bwriad yw dwyn £20 miliwn ymlaen o flwyddyn ariannol 2012-13 fel rhan o'r system cyfnewid cyllideb**<sup>14</sup> a gaiff ei ddefnyddio i gyllido'r dyraniadau prentisiaethau. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, ni fydd yr arian ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol, ac felly mae'n debygol y caiff ei ailddyrranu i'r cronfeydd wrth gefn drwy gyllideb atodol ychwanegol ar gyfer 2013-14. Mae'r Gyllideb Derfynol yn nodi y rhagwelir y bydd trefniant tebyg i ddwyn £20 miliwn ymlaen ar gyfer prentisiaethau ar gyfer 2014-15.<sup>15</sup>

- Mae **£20 miliwn wedi ei ddyrannu, ym mhob blwyddyn** o'r gyllideb, i'r MEG Addysg a Sgiliau ar gyfer **Prentisiaethau** (gweler [adran 7](#) i gael rhagor o fanylion). Cafodd y dyraniadau hyn eu gwneud o gronfeydd wrth gefn i ddechrau.
- Mae **£2 filiwn yn 2013-14 a £3.3 miliwn yn 2014-15** wedi eu dyrannu i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer **rhyddhad ardrethi busnes mewn Ardaloedd Menter** (gweler [adran 6](#) i gael rhagor o fanylion). Dyrannwyd hyn o'r cronfeydd refeniw wrth gefn.
- Mae **£10 miliwn yn 2013-14 ac £20 miliwn yn 2014-15** wedi eu dyrannu i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer **y Gronfa Twf Economaidd** (gweler [adran 6](#) i gael rhagor o fanylion). Dyrannwyd hyn o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn.
- Mae **£1 filiwn yn 2013-14 a £9 miliwn yn 2014-15** wedi eu dyrannu i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer **cyfleuster gwyddoniaeth ac ymchwil** (gweler [adran 6](#) i gael rhagor o fanylion). Dyrannwyd hyn o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn.
- Mewn perthynas â **defnyddio tir y sector cyhoeddus ar gyfer tai, dyrennir £8 miliwn yn 2013-14** i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a dyrennir **£8.7 miliwn yn 2014-15** i'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth (gweler

---

<sup>14</sup>Ceir rhagor o wybodaeth am y **System Cyfnewid Cyllideb** yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Hyblygrwydd Cyllidebol: Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a Chyfnwyd Cyllideb](#) [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>15</sup>Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol y Gyllideb Derfynol 2013-14](#), 27 Tachwedd 2011 (tud 5) [fel ar 28 Tachwedd 2012]

adrannau 6 a 9 i gael rhagor o fanylion). Daeth y dyraniadau hyn o gronfeydd wrth gefn.

- Bu newidiadau i'r dyraniadau ar gyfer y **cyrff a ariennir yn uniongyrchol**,<sup>16</sup> er mwyn adlewyrchu eu cyllidebau arfaethedig ar gyfer 2013-14, a gyflwynwyd ac y craffwyd arnynt ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cronfeydd wrth gefn.

---

<sup>16</sup> Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Tabl 1: Trosglwyddiadau mewn perthynas â'r cronfeydd wrth gefn rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol**

Trosglwyddiad	2013-14	2014-15
<b>Cronfeydd Refeniw wrth Gefn</b>		
<b>Cronfeydd Refeniw wrth Gefn yn y Gyllideb Ddrafft<sup>1</sup></b>	<b>212,876</b>	<b>224,955</b>
BETS: Rhyddhad Ardrethi Busnes yn yr Ardaloedd Menter	-1,975	-3,255
E&S: Prentisiaethau	-20,000	-20,000
<b>Dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru</b>	<b>-21,975</b>	<b>-23,255</b>
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	-950	-1,041
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-41	-111
Archwilydd Cyffredinol Cymru <sup>2</sup>	-500	-520
Taliadau uniongyrchol	-3	-3
<b>Trosglwyddiadau mewn perthynas â'r cronfeydd refeniw</b>	<b>-23,469</b>	<b>-24,930</b>
<b>Cronfeydd Refeniw wrth Gefn yn y Gyllideb Derfynol</b>	<b>189,407</b>	<b>200,025</b>
<b>Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn</b>		
<b>Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn yn y Gyllideb Ddrafft</b>	<b>18,923</b>	<b>78,501</b>
BETS: Y Gronfa Twf Economaidd	-10,000	-20,000
BETS: Cyfleuster gwyddoniaeth ac ymchwil	-1,000	-9,000
BETS: defnyddio tir y sector cyhoeddus ar gyfer tai	-8,000	
HRH: defnyddio tir y sector cyhoeddus ar gyfer tai		-8,700
<b>Dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru</b>	<b>-19,000</b>	<b>-37,700</b>
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	950	1,041
Archwilydd Cyffredinol Cymru <sup>2</sup>	-4	16
<b>Trosglwyddiadau mewn perthynas â'r cronfeydd cyfalaf</b>	<b>-18,054</b>	<b>-36,643</b>
<b>Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn yn y Gyllideb Derfynol</b>	<b>869</b>	<b>41,858</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

1. Nodwch fod yr arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2013-14 yn y gyllideb ddrafft wedi cael ei ailnodi i adlewyrchu gostyngiad o £329,000 o ganlyniad i ostyngiad yn llinell sylfaen y DEL. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y gyllideb AME mewn perthynas â chostau pensiynau'r Gwasanaeth Tân (a gaiff eu hariannu gan Drysorlys EM), a bydd yr arian yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau drwy gyllidebau atodol dilynol.

2. Mae cyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cael ei chynnwys fel arian refeniw yn ei chyfanrwydd, ac felly mae'n dangos gostyngiad yn y DEL cyfalaf. Caiff hyn ei gywiro mewn cyllidebau dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

### 3. Trosolwg o Floc Cymru

Mae Atodlen 6 i Gynnig y Gyllideb Flynyddol yn dangos bod **£15.4 biliwn** wedi'i ddarparu gan Drysorlys EM ar gyfer cyfanswm bloc Cymru ym mlwyddyn ariannol 2013-14.<sup>17</sup> Mae hyn **£339,000 yn llai** na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb ddrafft.<sup>18</sup>

Wrth edrych ar y gyllideb, dylid nodi bod y ffigurau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fel llinell sylfaen 2012-13 yn seiliedig ar y rheini yng Nghyllideb Atodol gyntaf 2012-13. Ni chafwyd ailddatganiad i ddileu'r dyraniadau yn ystod y flwyddyn nad ydynt yn rhai rheolaidd ac felly mae'r ffigurau'n cyfateb â'i gilydd yn union.

#### 3.1. *Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)*<sup>19</sup>

##### **Cyfanswm yr arian a reolir (TME) ym mloc Cymru.**

Mae Tablau 2 a 3 yn dangos y TME o fewn bloc Cymru; hynny yw, y dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol, arian wrth gefn a thaliadau uniongyrchol, ond gan hepgor y ddarpariaeth ar gyfer Swyddfa Cymru. Mae **Tabl 2** yn dangos y newidiadau i'r TME ers y gyllideb ddrafft ac mae **tabl 3** yn dangos y newid rhwng 2012-13 a 2013-14 a chyfanswm y newid dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mewn termau arian parod a thermau real.

- Mae'r TME ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 yn **£15.4 biliwn**, sef gostyngiad o £50.1 miliwn neu 0.3% o'i gymharu â'r cyfanswm yn 2012-13. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 2.8%.
- Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), ceir cynnydd cyffredinol o **£186.6 miliwn neu 1.2% yn y TME**. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 3.7%.

---

<sup>17</sup>Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2013-14](#), Tachwedd 2011 (Atodlen 6 tudalen 25) [fel ar 28 Tachwedd 2012]

<sup>18</sup> Yn y gyllideb ddrafft, y ffigur oedd £15,419,745, ac yn y Gyllideb Derfynol y ffigur yw £15,419,406.

<sup>19</sup> **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** - Cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfyniadau gwariant adrannol (DEL).

O gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae'r TME ym mloc Cymru **wedi cynyddu £19.7 miliwn yn 2013-14 a 2014-15.**

Mae'r cynnydd hwn yn y TME yn adlewyrchu'r bwriad i ddwyn £20 miliwn ymlaen ym mhob blwyddyn fel y nodwyd yn [adran 2](#). Gan na fydd yr £20 miliwn hwn ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn, a bod arian o'r cronfeydd wrth gefn wedi'i ddefnyddio yn ei le yn y cyfamser, y newid gwirioneddol yn y TME yw **gostyngiad o £339,000 yn 2013-14, a £32,000 yn 2014-15, o'i gymharu â'r gyllideb ddrafft.** Dyma ganlyniad addasiad o £329,000 yn llinell sylfaen y DEL yn 2013-14 a newidiadau o £10,000 yn 2013-14 a £32,000 yn 2014-15 i'r AME ar gyfer yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler [adran 3.5](#)).

### Dyraniadau TME Llywodraeth Cymru

- Y TME a ddyranwyd i adrannau Llywodraeth Cymru (hynny yw, y ddarpariaeth ar gyfer y prif grwpiau gwariant)<sup>20</sup> ar gyfer 2013-14 yw **£15.2 biliwn**, sef 98% o gyfanswm bloc Cymru.
- O'i gymharu â 2012-13, mae hyn yn cynrychioli **gostyngiad o £107.9 miliwn (0.7%)**. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £477.8 miliwn (3.1%).
- Dros gyfnod y gyllideb, ceir **cynnydd cyffredinol o £75.9 miliwn (0.5%)**. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £663.6 miliwn (4.3%).

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae'r TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£41 miliwn yn uwch nag yn 2013-14 a £61 miliwn yn uwch nag yn 2014-15.**

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y prif grwpiau gwariant Addysg a Sgiliau, Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a Thai, Adfywio a Threftadaeth, fel y nodir yn [adran 2](#).

---

<sup>20</sup> **Prif grwpiau gwariant (MEGs)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn nifer o lefelau o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw lefel uchaf y manylion hyn ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gylch gwaith y Gweinidogion. Islaw lefel y MEG, nodir y gwariant yn ôl y meysydd rhaglenni gwariant (SPAs) ac, o fewn y rhain, ar ffurf camau gweithredu.



Tabl 2: Newid i'r TME ers y gyllideb ddrafft

Prif Grŵp Gwariant	Llinell sylfaen 2012-13	Cyllideb Ddrafft 2013-14	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15	Cyllideb Derfynol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2013-14		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2014-15	
	£000s	£000s	£000s	£000s	£000s	£000s	per cent	£000s	per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,544,950	6,429,870	6,552,518	6,429,870	6,552,518	0	0.0	0	0.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,147,024	5,204,242	5,258,111	5,204,242	5,258,111	0	0.0	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	316,628	294,369	292,998	315,344	325,253	20,975	7.1	32,255	11.0
Addysg a Sgiliau	2,033,131	2,027,802	2,018,617	2,047,802	2,038,617	20,000	1.0	20,000	1.0
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	340,522	326,766	328,123	326,766	328,123	0	0.0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	527,138	488,226	481,777	488,226	490,477	0	0.0	8,700	1.8
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,041	350,243	353,257	350,243	353,257	0	0.0	0	0.0
<b>Cyfanswm Dyraniadau TME Lywodraeth Cymru</b>	<b>15,270,434</b>	<b>15,121,518</b>	<b>15,285,401</b>	<b>15,162,493</b>	<b>15,346,356</b>	<b>40,975</b>	<b>0.3</b>	<b>60,955</b>	<b>0.4</b>
Cronfeydd Refeniw*	150,042	212,876	224,955	189,407	200,025	-23,469	-11.0	-24,930	-11.1
Cronfeydd Cyfalaf*	5,422	18,923	78,501	869	41,858	-18,054	-95.4	-36,643	-46.7
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	0	0	20,000	20,000	20,000	..	20,000	..
Comisiwn y Cynulliad	47,477	49,950	51,098	49,950	51,098	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	4,740	5,244	5,244	504	10.6	504	10.6
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,853	3,911	3,901	3,942	3,980	31	0.8	79	2.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	642	645	645	3	0.5	3	0.5
<b>Cyfanswm TME Cymru</b>	<b>15,482,610</b>	<b>15,412,889</b>	<b>15,649,238</b>	<b>15,432,550</b>	<b>15,669,206</b>	<b>19,661</b>	<b>0.1</b>	<b>19,968</b>	<b>0.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14.

\* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

1. Nodwch fod yr arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2013-14 yn y gyllideb ddrafft wedi cael ei ailnodi i adlewyrchu gostyngiad o £329,000 o ganlyniad i ostyngiad yn llinell sylfaen y DEL. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y gyllideb AME mewn perthynas â chostau pensiynau'r Gwasanaeth Tân (a gaiff eu hariannu gan Drysorlys EM), a bydd yr arian yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau drwy gyllidebau atodol dilynol.

2. Mae cyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cael ei chynnwys fel arian refeniw yn ei chyfanrwydd, ac felly mae'n dangos gostyngiad yn y DEL cyfalaf. Caiff hyn ei gywiro mewn cyllidebau dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

Tabl 3: Y newid i'r TME o flwyddyn i flwyddyn

Prif Grŵp Gwariant	Linell sylfaen 2012-13	Cyllideb Derfynol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng 2012-13 a 2013-14		Newid yn nhermau real rhwng 2012-13 a 2013-14		Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15		Newid cyffredinol yn nhermau real rhwng 2012-13 a 2014-15	
	£000s	£000s	£000s	£000s	y cart	£000s	y cart	£000s	y cart	£000s	y cart
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,544,950	6,429,870	6,552,518	-115,080	-1.8	-271,906	-4.2	7,568	0.1	-308,169	-4.7
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,147,024	5,204,242	5,258,111	57,218	1.1	-69,715	-1.4	111,087	2.2	-142,278	-2.8
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	316,628	315,344	325,253	-1,284	-0.4	-8,975	-2.8	8,625	2.7	-7,048	-2.2
Addysg a Sgiliau	2,033,131	2,047,802	2,038,617	14,671	0.7	-35,275	-1.7	5,486	0.3	-92,746	-4.6
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	340,522	326,766	328,123	-13,756	-4.0	-21,726	-6.4	-12,399	-3.6	-28,210	-8.3
Tai, Adfywio a Threftadaeth	527,138	488,226	490,477	-38,912	-7.4	-50,820	-9.6	-36,661	-7.0	-60,295	-11.4
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,041	350,243	353,257	-10,798	-3.0	-19,341	-5.4	-7,784	-2.2	-24,806	-6.9
<b>Cyfanswm Dyraniadau TME Lywodraeth Cymru</b>	<b>15,270,434</b>	<b>15,162,493</b>	<b>15,346,356</b>	<b>-107,941</b>	<b>-0.7</b>	<b>-477,758</b>	<b>-3.1</b>	<b>75,922</b>	<b>0.5</b>	<b>-663,551</b>	<b>-4.3</b>
Cronfeydd Refeniw*	150,042	189,407	200,025	39,365	26.2	34,745	23.2	49,983	33.3	40,345	26.9
Cronfeydd Cyfalaf*	5,422	869	41,858	-4,553	-84.0	-4,574	-84.4	36,436	672.0	34,419	634.8
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	20,000	20,000	20,000	..	19,512	..	20,000	..	19,036	..
Comisiwn y Cynulliad	47,477	49,950	51,098	2,473	5.2	1,255	2.6	3,621	7.6	1,159	2.4
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	5,244	5,244	504	10.6	376	7.9	504	10.6	251	5.3
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,853	3,942	3,980	89	2.3	-7	-0.2	127	3.3	-65	-1.7
Taliadau uniongyrchol	642	645	645	3	0.5	-13	-2.0	3	0.5	-28	-4.4
<b>Cyfanswm TME Cymru</b>	<b>15,482,610</b>	<b>15,432,550</b>	<b>15,669,206</b>	<b>-50,060</b>	<b>-0.3</b>	<b>-426,464</b>	<b>-2.8</b>	<b>186,596</b>	<b>1.2</b>	<b>-568,434</b>	<b>-3.7</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys Ei Mawrhydi.

\* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

1. Nodwch fod yr arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2013-14 yn y gyllideb ddrafft wedi cael ei ailnodi i adlewyrchu gostyngiad o £329,000 o ganlyniad i ostyngiad yn llinell sylfaen y DEL. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y gyllideb AME mewn perthynas â chostau pensiynau'r Gwasanaeth Tân (a gaiff eu hariannu gan Drysorlys EM), a bydd yr arian yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau drwy gyllidebau atodol dilynol.

2. Mae cyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cael ei chynnwys fel arian refeniw yn ei chyfanrwydd, ac felly mae'n dangos gostyngiad yn y DEL cyfalaf. Caiff hyn ei gywiro mewn cyllidebau dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

### 3.2. Cyfanswm terfynau gwariant adrannol (DEL)<sup>21</sup>

#### Cyfanswm y DEL ym mloc Cymru.

Mae tablau 4 a 5 yn dangos cyfanswm y DEL ym mloc Cymru. Mae [tabl 4](#) yn dangos y newidiadau i gyfanswm y DEL ers y gyllideb ddrafft, ac mae [tabl 5](#) yn dangos y newid rhwng 2012-13 a 2013-14 a'r newid cyffredinol dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mewn termau arian parod a thermau real.

- Cyfanswm y DEL ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 yw **£15.2 biliwn**, sef **cynnydd o £77.9 miliwn, neu 0.5% o'i gymharu â'r cyfanswm yn 2012-13.** Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 1.9%.
- Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), ceir cynnydd cyffredinol **o £187.9 miliwn, neu 1.2%, yng nghyfanswm y DEL.** Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 3.6%.

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru wedi **cynyddu £19.7 miliwn yn 2013-14, a £20 miliwn yn 2014-15.**

Mae'r cynnydd hwn yng nghyfanswm y DEL yn y naill flwyddyn a'r llall yn adlewyrchu'r bwriad i ddwyn £20 miliwn ymlaen o bob blwyddyn, fel y nodwyd yn [adran 2](#). Gan na fydd y £20 miliwn hwn ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn, a bod arian o'r cronfeydd wrth gefn wedi'i ddefnyddio yn ei le yn y cyfamser, y newid gwirioneddol yng nghyfanswm y DEL yw **gostyngiad o £329,000 yn 2013-14, a sero yn 2014-15, o'i gymharu â'r gyllideb ddrafft.** Mae hyn yn ganlyniad i addasiad o £329,000 yn llinell sylfaen y DEL yn 2013-14.

#### Cyfanswm dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru

- Cyfanswm y DEL a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yw **£14.9 biliwn**, sef **98%** o gyfanswm y DEL ym mloc Cymru.
- O'i gymharu â 2012-13, mae hyn yn cynrychioli **cynnydd o £20.3 miliwn (0.1%).** Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £342.8 miliwn (2.3%).
- Dros gyfnod y gyllideb, ceir **cynnydd cyffredinol o £77.5 miliwn (0.5%).** Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £642.5 miliwn (4.3%).

---


<sup>21</sup>Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) - fe'i gosodir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o adolygu gwariant. Dyma derfyn cyllideb aml-flwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb a ddyrennir i Lywodraeth Cymru, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath eu pennu ar sail fformiwla Barnett.

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae cyfanswm y DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£41 miliwn yn uwch yn 2013-14 a £61 miliwn yn uwch yn 2014-15.**

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y prif grwpiau gwariant Addysg a Sgiliau, Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a Thai, Adfywio a Threftadaeth, fel y nodir yn [adran 2](#).

Mae [ffigur 1](#) yn dangos cyfran cyfanswm DEL Llywodraeth Cymru a ddyrennir i bob MEG yn 2013-14. O hyn, gellir gweld, o'u cyfuno, fod y prif grwpiau gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynrychioli tua **78%** o gyfanswm cyllideb DEL Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 1: Cyfran cyfanswm y dyraniad DEL i bob MEG yn 2013-14**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

**Mae ffigur 2** yn dangos cyfanswm dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru i bob MEG ym mhob blwyddyn o gyfnod y gyllideb, ac mae **ffigur 3** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm DEL Llywodraeth Cymru i bob MEG rhwng 2012-13 a 2013-14, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yng nghyfanswm y DEL (0.1%). O hyn, gellir gweld yr hyn a ganlyn:


- Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y DEL rhwng 2012-13 a 2013-14 yn y MEG **Tai, Adfywio a Threftadaeth**, gyda gostyngiad o 6.1%, sy'n ostyngiad termau real o 8.4%.
- Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn y MEG **Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**, gyda chynnydd o 7.3%, sy'n gynnydd termau real o 4.7%.

**Ffigur 2: Cyfanswm y DEL yn ôl y prif grwpiau gwariant mewn termau arian parod, rhwng 2012-13 a 2014-15**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

**Ffigur 3: Newid canrannol yng nghyfanswm y DEL mewn termau arian parod rhwng 2012-13 a 2013-14**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Tabl 4: Newid yng nghyfanswm y DEL ers y gyllideb ddrafft

Prif Grŵp Gwariant	Llinell sylfaen 2012-13	Cyllideb Ddrafft 2013-14	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15	Cyllideb Derfynol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2013-14		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2014-15	
	£000s	£000s	£000s	£000s	£000s	£000s	per cent	£000s	per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,343,240	6,335,296	6,339,090	6,335,296	6,339,090	0	0.0	0	0.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,095,639	5,151,836	5,204,677	5,151,836	5,204,677	0	0.0	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	275,226	274,369	272,998	295,344	305,253	20,975	7.6	32,255	11.8
Addysg a Sgiliau	1,854,822	1,850,933	1,835,468	1,870,933	1,855,468	20,000	1.1	20,000	1.1
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	340,522	326,766	328,123	326,766	328,123	0	0.0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	592,648	556,486	550,037	556,486	558,737	0	0.0	8,700	1.6
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	362,883	348,609	351,105	348,609	351,105	0	0.0	0	0.0
<b>Cyfanswm Dyranïadau DEL Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,864,980</b>	<b>14,844,295</b>	<b>14,881,498</b>	<b>14,885,270</b>	<b>14,942,453</b>	<b>40,975</b>	<b>0.3</b>	<b>60,955</b>	<b>0.4</b>
Cronfeydd Refeniw*	150,042	212,876	224,955	189,407	200,025	-23,469	-11.0	-24,930	-11.1
Cronfeydd Cyfalaf*	5,422	18,923	78,501	869	41,858	-18,054	-95.4	-36,643	-46.7
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	0	0	20,000	20,000	20,000	..	20,000	..
Comisiwn y Cynulliad	47,227	49,450	50,598	49,450	50,598	0	0.0	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	4,740	5,244	5,244	504	10.6	504	10.6
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,034	4,103	4,093	4,144	4,204	41	1.0	111	2.7
Taliadau uniongyrchol	642	642	642	645	645	3	0.5	3	0.5
<b>Cyfanswm DEL Cymru</b>	<b>15,077,087</b>	<b>15,135,358</b>	<b>15,245,027</b>	<b>15,155,029</b>	<b>15,265,027</b>	<b>19,671</b>	<b>0.1</b>	<b>20,000</b>	<b>0.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14.

\* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

1. Nodwch fod yr arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2013-14 yn y gyllideb ddrafft wedi cael ei ailnodi i adlewyrchu gostyngiad o £329,000 o ganlyniad i ostyngiad yn llinell sylfaen y DEL. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y gyllideb AME mewn perthynas â chostau pensiynau'r Gwasanaeth Tân (a gaiff eu hariannu gan Drysorlys EM), a bydd yr arian yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau drwy gyllidebau atodol dilynol.

2. Mae cyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014-15 wedi cael ei chynnwys fel arian refeniw yn ei chyfanrwydd, ac felly mae'n dangos gostyngiad yn y DEL cyfalaf. Caiff hyn ei gywiro mewn cyllidebau dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

Tabl 5: Newid i gyfanswm y DEL o flwyddyn i flwyddyn

Prif Grŵp Gwariant	Llinell sylfaen 2012-13	Cyllideb Derfynol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng 2012-13 a 2013-14		Newid yn nhermau real rhwng 2012-13 a 2013-14		Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15		Newid cyffredinol yn nhermau real rhwng 2012-13 a 2014-15	
	£000s	£000s	£000s	£000s	y cart	£000s	y cart	£000s	y cart	£000s	y cart
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,343,240	6,335,296	6,339,090	-7,944	-0.1	-162,463	-2.6	-4,150	-0.1	-309,603	-4.9
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,095,639	5,151,836	5,204,677	56,197	1.1	-69,458	-1.4	109,038	2.1	-141,753	-2.8
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	275,226	295,344	305,253	20,118	7.3	12,914	4.7	30,027	10.9	15,318	5.6
Addysg a Sgiliau	1,854,822	1,870,933	1,855,468	16,111	0.9	-29,522	-1.6	646	0.0	-88,761	-4.8
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	340,522	326,766	328,123	-13,756	-4.0	-21,726	-6.4	-12,399	-3.6	-28,210	-8.3
Tai, Adfywio a Threftadaeth	592,648	556,486	558,737	-36,162	-6.1	-49,735	-8.4	-33,911	-5.7	-60,834	-10.3
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	362,883	348,609	351,105	-14,274	-3.9	-22,777	-6.3	-11,778	-3.2	-28,696	-7.9
<b>Cyfanswm Dy raniadau DEL Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,864,980</b>	<b>14,885,270</b>	<b>14,942,453</b>	<b>20,290</b>	<b>0.1</b>	<b>-342,765</b>	<b>-2.3</b>	<b>77,473</b>	<b>0.5</b>	<b>-642,538</b>	<b>-4.3</b>
Cronfeydd Refeniw*	150,042	189,407	200,025	39,365	26.2	34,745	23.2	49,983	33.3	40,345	26.9
Cronfeydd Cyfalaf*	5,422	869	41,858	-4,553	-84.0	-4,574	-84.4	36,436	672.0	34,419	634.8
